Awst 2017

**Cyngor ar y Cyd ar Gyflog Athrawon Ysgol 2017-18**

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2017 yn dilyn y penderfyniad i weithredu argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Athrawon (STRB) ar gyflog athrawon ar gyfer 2017-18.

**Amlinellwn yma gyngor ar y cyd ein sefydliadau ar gymhwyso'r newidiadau arfaethedig hyn, gan gynnwys mabwysiadu graddfeydd cyflog a chymhwyso cynnydd unigol mewn cyflog.**

*Ymgynghori ar bolisïau cyflog*

**Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol gydag athrawon a'u cynrychiolwyr undeb cyn i bolisïau cyflog a graddfeydd cyflog ar gyfer Medi 2017 gael eu terfynu.**

**Dylai hyn ddigwydd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad am ymgynghoriad ystyrlon ac, ar yr un pryd, sicrhau nad yw codiadau cyflog athrawon yn cael eu hoedi. Er hynny, credwn y byddai'n ddefnyddiol i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a chyflogwyr academi gyhoeddi cyn gynted â phosibl a ydynt yn bwriadu mabwysiadu'r cyngor a amlinellir yma ai peidio.**

*Graddfeydd cyflog ar gyfer 2017-18*

Er mai dim ond ystodau cyflog gydag isafswm ac uchafswm pwyntiau y mae STPCD (er 2014) yn eu nodi, mae'n parhau i ganiatáu mabwysiadu pwyntiau graddfa cyflog penodol fel sail ar gyfer datblygiad cyflog.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig gweithredu cynnydd o 2% i isafswm ac uchafswm y Brif Ystod Cyflog a chynnydd o 1% i isafswm ac uchafswm ystodau cyflog a lwfans eraill.

**Rydym yn cynghori ar y cyd y dylai'r codiad canrannol (naill ai 2% neu 1%) gymhwyso i bob athro neu arweinydd yn yr ystod berthnasol. Dim ond polisïau cyflog sy'n adlewyrchu'r egwyddor hon y byddwn yn eu cefnogi. Mae'r pwyntiau graddfa cyflog isod yn adlewyrchu'r egwyddor hon ac wedi'u seilio ar yr ystodau cyflog a oedd wedi'u sefydlu cyn 1 Medi 2014. Yn unol ag argymhellion eleni maen nhw wedi'u huwchraddio gan 2% ar y Brif Ystod Cyflog a 1% ar yr holl bwyntiau graddfa a lwfansau eraill.**

Os yw polisi cyflog ysgol yn cynnwys pwyntiau graddfa cyflog sy'n wahanol i'r rheini a amlinellir yma, **rydym yn cynghori ar y cyd y dylai pwyntiau graddfa o'r fath weld cynnydd tebyg (h.y. gan 2% ar gyfer pwyntiau graddfa ar y Brif Ystod Cyflog ac 1% fel arall gan gynnwys taliadau TLR a lwfansau SEN).**

*Codiadau cyflog ar gyfer 2017-18*

**Rydym yn cynghori ar y cyd y dylai pob athro dderbyn codiad cyflog unigol sy'n cyfateb â'r codiadau a amlinellir uchod, ac eithrio unrhyw godiad sy'n deillio o ddatblygiad i bwynt graddfa cyflog uwch.**

Roedd y codiad a argymhellwyd gan y STRB mewn ymateb i broblemau recriwtio a chadw sy'n effeithio ar y system ysgol gyfan ac mae angen codiadau cyflog priodol i bob athro er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hynny.

Mae'r STPCD 2017 yn nodi yn Adran 2 bod yn “rhaid i ysgolion benderfynu - yn unol â'u polisi cyflog eu hunain - sut i ystyried y codiad i'r fframwaith cenedlaethol wrth wneud penderfyniadau datblygiadau cyflog unigol." Mae'r darpariaethau hyn yn nodi y dylai athrawon fodloni meini prawf perfformiad perthnasol ar gyfer datblygiad ar eu graddfa gyflog os ydynt yn gymwys, ond nid ydynt yn atal codiad cyflog o ganlyniad i ailbrisio graddfeydd cyflog a amlinellir ym mholisi cyflog yr ysgol.

Er gwaethaf ein safbwyntiau gwahanol ar egwyddor datblygiad cyflog cysylltiedig â pherfformiad, rydym yn cytuno y gellir, ac y dylid, cynnal gwahaniaethiad rhwng codiadau cyflog sy'n deillio o ddatblygiad ar raddfeydd cyflog a chodiadau cyflog sy'n deillio o ailbrisio graddfeydd cyflog at ddibenion cost byw. Dyma'r unig ffordd i sicrhau bod y proffesiwn yn dychwelyd at sefyllfa gystadleuol yn y farchnad i raddedigion.

***Materion eraill***

Mae'r undebau athrawon yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau ariannu ychwanegol gan y Llywodraeth i gefnogi codiadau cyflog athrawon eleni ac yn y dyfodol.

Yn gywir

Ysgrifennydd Cyffredinol
ASCL

Ysgrifennydd Cyffredinol
ATL

Darpar Ysgrifennydd Cyffredinol
NAHT

Ysgrifennydd Cyffredinol
NUT

Ysgrifennydd Cyffredinol
UCAC

Ysgrifennydd Cyffredinol
Voice

**Cyflog Athrawon Ysgol 2017-18:** **Atodiad**
**Pwyntiau Graddfa Cyflog**

***ATHRAWON DOSBARTH***

**Os yw polisi cyflog ysgol yn cynnwys pwyntiau graddfa cyflog sy'n wahanol i'r rheini yn y ddogfen hon, rydym yn cynghori ar y cyd y dylai pwyntiau'r Brif Ystod Cyflog gynyddu gan 2% o'u gwerthoedd 2016-17. Dylai pwyntiau Ystod Cyflog Uwch ac Ymarferwr Arweiniol gynyddu gan 1% o'u gwerthoedd yn 2016-17.**

**PRIF YSTOD CYFLOG**

| | Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Fewnol | Ardal Llundain Allanol | Ardal yr Ymylon |
|---|---|---|---|---|
| 1 (isafswm) | £22,917 | £28,660 | £26,662 | £24,018 |
| 2 | £24,728 | £30,155 | £28,315 | £25,828 |
| 3 | £26,716 | £31,726 | £30,067 | £27,815 |
| 4 | £28,772 | £33,379 | £31,929 | £29,878 |
| 5 | £31,039 | £35,947 | £34,637 | £32,139 |
| 6 (uchafswm) | £33,824 | £39,006 | £37,645 | £34,934 |

**YSTOD CYFLOG UWCH**

| | Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Fewnol | Ardal Llundain Allanol | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 1 (isafswm) | £35,927 | £43,616 | £39,519 | £37,017 |
| 2 | £37,258 | £45,760 | £40,981 | £38,346 |
| 3 (uchafswm) | £38,633 | £47,298 | £42,498 | £39,725 |

**YSTOD CYFLOG YMARFERWR ARWEINIOL**

| | Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Fewnol | Ardal Llundain Allanol | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| isafswm | £39,374 | £46,814 | £42,498 | £40,458 |
| uchafswm | £59,857 | £67,305 | £62,985 | £60,945 |

Sylwer:
Mae isafswm ac uchafswm yr ystod hon gyfwerth ag isafswm yr Ystod Arweinyddiaeth ac i'r pwynt graddfa Ystod Arweinyddiaeth a argymhellir L18 isod. Gallai ysgolion sy'n dymuno defnyddio pwyntiau graddfa cyflog ar yr ystod hon benderfynu felly defnyddio pwyntiau L1 i L18 isod.

*ATHRAWON GRŴP ARWEINYDDIAETH*

**Os yw polisi cyflog ysgol yn cynnwys pwyntiau graddfa cyflog sy'n wahanol i'r rheini yn y ddogfen hon, rydym yn cynghori ar y cyd y dylai pwyntiau o'r fath godi gan 1% o'u gwerthoedd 2016-17.**

**YSTOD CYFLOG GRŴP ARWEINYDDIAETH**

*Nid yw'r pwyntiau a argymhellir ar yr Ystod Grŵp Arweinyddiaeth yn cyfateb yn uniongyrchol ag uchafswm statudol wyth Ystod Grŵp Pennaeth y DdCAAY (STPCD). Gweler isod am gyngor ar gymhwyso'r uchafswm statudol ar gyfer Penaethiaid. Cofiwch sicrhau eich bod chi'n defnyddio'r ystod gywir.*

| | Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Fewnol | Ardal Llundain Allanol | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | £39,374 | £46,814 | £42,498 | £40,458 |
| 2 | £40,360 | £47,804 | £43,486 | £41,447 |
| 3 | £41,368 | £48,816 | £44,490 | £42,454 |
| 4 | £42,398 | £49,844 | £45,525 | £43,489 |
| 5 | £43,454 | £50,906 | £46,582 | £44,546 |
| 6 | £44,544 | £51,991 | £47,667 | £45,633 |
| 7 | £45,743 | £53,194 | £48,870 | £46,835 |
| 8 | £46,799 | £54,247 | £49,924 | £47,884 |
| 9 | £47,967 | £55,411 | £51,090 | £49,055 |
| 10 | £49,199 | £56,644 | £52,325 | £50,286 |
| 11 | £50,476 | £57,918 | £53,597 | £51,561 |
| 12 | £51,639 | £59,087 | £54,766 | £52,730 |
| 13 | £52,930 | £60,376 | £56,059 | £54,021 |
| 14 | £54,250 | £61,695 | £57,370 | £55,338 |
| 15 | £55,600 | £63,041 | £58,720 | £56,684 |
| 16 | £57,077 | £64,525 | £60,202 | £58,167 |
| 17 | £58,389 | £65,837 | £61,515 | £59,485 |
| 18 | £59,857 | £67,305 | £62,985 | £60,945 |
| 19 | £61,341 | £68,789 | £64,469 | £62,429 |
| 20 | £62,863 | £70,310 | £65,988 | £63,955 |
| 21 | £64,417 | £71,865 | £67,545 | £65,513 |
| 22 | £66,017 | £73,465 | £69,139 | £67,108 |
| 23 | £67,652 | £75,094 | £70,774 | £68,738 |
| 24 | £69,330 | £76,778 | £72,454 | £70,423 |
| 25 | £71,053 | £78,497 | £74,177 | £72,140 |
| 26 | £72,810 | £80,254 | £75,934 | £73,903 |
| 27 | £74,615 | £82,057 | £77,738 | £75,702 |
| 28 | £76,466 | £83,910 | £79,591 | £77,551 |
| 29 | £78,359 | £85,807 | £81,481 | £79,450 |
| 30 | £80,310 | £87,755 | £83,432 | £81,393 |
| 31 | £82,293 | £89,742 | £85,422 | £83,386 |
| 32 | £84,339 | £91,783 | £87,461 | £85,431 |
| 33 | £86,435 | £93,881 | £89,562 | £87,527 |
| 34 | £88,571 | £96,018 | £91,697 | £89,663 |
| 35 | £90,773 | £98,220 | £93,897 | £91,865 |
| 36 | £93,020 | £100,464 | £96,141 | £94,109 |
| 37 | £95,333 | £102,783 | £98,459 | £96,422 |
| 38 | £97,692 | £105,135 | £100,817 | £98,781 |
| 39 | £100,072 | £107,516 | £103,195 | £101,158 |
| 40 | £102,570 | £110,020 | £105,697 | £103,663 |
| 41 | £105,132 | £112,584 | £108,259 | £106,222 |
| 42 | £107,766 | £115,211 | £110,887 | £108,858 |
| 43 | £109,366 | £116,738 | £112,460 | £110,448 |

**YSTODAU CYFLOG GRŴP PENAETHIAID - CYFYNGIADAU STPCD**

Nid yw'r uchafswm statudol y DdCAAY (STPCD) ar gyfer yr wyth Ystod Grŵp Penaethiaid bellach yn cyfateb â'r pwyntiau graddfa a argymhellir ar yr Ystod Grŵp Arweinyddiaeth, na'r pwynt cyfatebol ble y mae'n disgyn yng nghanol yr ystod, oherwydd penderfyniad y Llywodraeth i rewi'r uchafswm hynny yn 2015. Rydym yn cynghori ar y cyd mai'r unig bryd y dylid defnyddio'r uchafswm statudol yw pan mai dyna yw pwynt uchaf ystod unigol y pennaeth ac nad yw'r disgresiwn i fynd yn uwch nag uchafswm yr ystod wedi'i ddefnyddio.

| | Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Fewnol | Ardal Llundain Allanol | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp 1 | £59,264 | £66,638 | £62,361 | £60,341 |
| Grŵp 2 | £63,779 | £71,153 | £66,876 | £64,864 |
| Grŵp 3 | £68,643 | £76,017 | £71,736 | £69,725 |
| Grŵp 4 | £73,876 | £81,244 | £76,968 | £74,952 |
| Grŵp 5 | £81,478 | £88,853 | £84,576 | £82,560 |
| Grŵp 6 | £89,874 | £97,247 | £92,967 | £90,955 |
| Grŵp 7 | £99,081 | £106,451 | £102,173 | £100,156 |
| Grŵp 8 | £109,366 | £116,738 | £112,460 | £110,448 |

*Nid yw'r pwyntiau hyn a argymhellir ar yr Ystod Grŵp Arweinyddiaeth yn cyfateb yn uniongyrchol ag uchafswm statudol wyth Ystod Grŵp Penaethiaid y DdCAAY (STPCD). Gweler fersiwn ar-lein y ddogfen hon am gyngor ar gymhwyso'r uchafswm statudol ar gyfer penaethiaid. Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r ystod gywir.*

**ATHRAWON HEB GYMHWYSO**

**Os yw polisi cyflog ysgol yn cynnwys pwyntiau graddfa cyflog sy'n wahanol i'r rheini yn y ddogfen hon, rydym yn cynghori ar y cyd y dylai pwyntiau o'r fath gynyddu gan 1% o'u gwerthoedd yn 2016-17.**

**YSTOD CYFLOG ATHRO HEB GYMHWYSO**

| | Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Fewnol | Ardal Llundain Allanol | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | £16,626 | £20,909 | £19,749 | £17,718 |
| 2 | £18,560 | £22,842 | £21,684 | £19,650 |
| 3 | £20,492 | £24,776 | £23,618 | £21,584 |
| 4 | £22,427 | £26,709 | £25,554 | £23,517 |
| 5 | £24,362 | £28,641 | £27,486 | £25,451 |
| 6 | £26,295 | £30,573 | £29,422 | £27,384 |